TGAU

3010NA0-1

W20-3010NA0-1

**DYDD GWENER, 10 IONAWR 2020 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN UWCH

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
**Mae effeithiau rhyfel yn gefndir i'r ddwy gerdd.**

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a / neu'n **wahanol**. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges / themâu'r cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Y Coed**

Chwe miliwn o goed yng Nghaersalem, fe'u plannwyd hwy
Yn goeden am bob corff a losgwyd yn y ffyrnau nwy.

Coed sydd yn estyn eu gwreiddiau i ganol lludw pob ffwrn,
Y lludw sydd wedi mynd ar goll, heb fynwent na bedd nac wrn.

Chwithig oedd gweled y cangau fel cofgolofnau byw,
Ac nid marmor na gwenithfaen, na hyd yn oed yr angladdol yw.

Ni chlywem ni na chlychau'r eglwys na mŵesin y mosg,
Ond clywed rhwng eu cangau hwy y marwnadau llosg.

Nid yw'r dwylo a'u plannodd yn ddieuog, na'u cydwybod yn lân,
Canys diddymodd yr Israeliaid bentrefi'r Arabiaid â'u tân.

Pam na ddylai'r Arabiaid, hwythau, godi yn Cairo ac Amân
Fforestydd o goed i gofio?

Ond ni allwn ni gondemnio'r Natsïaid na'r Iddewon ychwaith
Canys fe droesom o'r awyr Dresden yn un uffern faith;

A gollwng y ddau fom niwclear ar y ddwy dre yn Japan.

O'r holl ganrifoedd a gerddodd ar y ddaear er cychwyn y byd,
Yr ugeinfed yw'r fwyaf barbaraidd ohonynt hwy i gyd.

A bydd y nesaf yn waeth am fod y bomiau a'r rhocedi yn fwy,
A dyfeisir mewn labordai dirgel sawl math o nwy.

A phan ddaw'r trydydd Rhyfel i gadw ei ddychrynllyd oed,
Ni ellir rhifo'r lladdedigion llosg, na rhifo ychwaith y coed.

Chwe miliwn o goed yng Nghaersalem, chwe miliwn, a thair croes,
Ac ar y ganol Yr Unig Un a fu'n byw'r Efengyl yn ei oes.

Daw'r tymhorau i newid eu lliwiau, gwyrdd, melyn a gwyn.
Ond coedwig y marwolaethau'n aros a fyddant hwy, er hyn.

Pan fyddant ymhen blynyddoedd wedi tyfu i'w llawn maint,
Fe wêl y genhedlaeth honno nad oeddem ni yn llawer o saint.

*Gwenallt*

**Yr Hen Ddinas Newydd**

*(Dinas wedi cael ei hailadeiladu wedi rhyfel)*

Wedi'r dinistr,
rhaid oedd ailgodi'r ddinas hon,
archwilio hen gynlluniau
a *brodio breuddwydion penseiri ddoe
mewn cerrig gofalus a sicrwydd semént.

Yn araf y tyfodd eto
amlinelliadau cyfarwydd yn yr awyr,
eglwysi,
        theatrau,
                tai.

Yn raddol dychwelodd eto,
fel hen ffrindiau,
y sgwariau cynnes
        y corneli clyd
        a'r *toi taclus
i wenu yn yr haul
ac i wylo yn y glaw.

Ar ganol y sgwâr fawr,
mae marchnad sy'n gwerthu
afalau a gellyg,
eirin a blodau,
ac weithiau
        hadau melys blodau'r haul.

*Bryan Martin Davies*

**brodio – creu*
**toi – mwy nag un to*

**DIWEDD Y PAPUR**